# Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cyfreithiol

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

***Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i greu gweithle sy'n ymgorffori ein gwerthoedd craidd: Bod yn Agored, Agosatrwydd, Balchder ac Uchelgais. Rydym ar daith i wella ein gwasanaethau ar gyfer y gymuned amrywiol rydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn gwahodd arweinwyr deinamig sydd ag angerdd am ragoriaeth gyfreithiol ac ymrwymiad i ysgogi newid cadarnhaol i ymuno â ni fel Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol.***

***Trosolwg o'r Rôl:***

Ydych chi'n barod i ymgymryd â rôl arwain lle gall eich arbenigedd effeithio'n sylweddol ar ein sefydliad? Fel Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghyngor Bro Morgannwg, cewch gyfle i arwain tîm deinamig sy'n darparu cymorth cyfreithiol hanfodol ar draws y Cyngor. Mae'r rôl hon yn hanfodol wrth i'r Cyngor ddechrau ar raglen drawsnewid ar raddfa fawr, sy'n gofyn am arweinydd sydd nid yn unig â chefndir cadarn mewn rheolaeth gyfreithiol ond sydd hefyd yn rhagori mewn arloesi ac ysbrydoli perfformiad uchel.

Yn y rôl hon, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau'r Cyngor yn gadarn yn gyfreithiol, yn dryloyw ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol. Byddwch yn chwarae rhan ganolog yn cefnogi rhaglen drawsnewid y Cyngor, yn arwain ar faterion cyfreithiol cymhleth, ac yn meithrin diwylliant o ragoriaeth yn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol.

- **Arweinyddiaeth:** Darparu cyfeiriad strategol i'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol, gan feithrin diwylliant o arloesi, rhagoriaeth a gwelliant parhaus. Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau cyfreithiol sy'n cefnogi agenda drawsnewid y Cyngor.
- **Cyngor a Chymorth Cyfreithiol:** Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol cadarn. Rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol ar ystod eang o faterion, gan integreiddio ystyriaethau cyfreithiol ym mhob agwedd ar weithrediadau a strategaethau'r Cyngor.
- **Rhagoriaeth Weithredol:** Goruchwylio'r fframwaith llywodraethu, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau diogelu data a gofynion rheoleiddio eraill. Rheoli'r gyllideb ar gyfer y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol, gan nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion costau ac effeithlonrwydd
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Datblygu a chynnal perthynas effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, cynrychioli'r Cyngor mewn fforymau amrywiol, a sicrhau bod fframweithiau cyfreithiol yn cefnogi newid sefydliadol.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym yn deall pwysigrwydd amgylchedd gwaith hyblyg a chefnogol. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision ac arferion gwaith a gynlluniwyd i'ch helpu i gydbwyso eich bywyd proffesiynol a phersonol:

# Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cyfreithiol

- **Gweithio Hybrid:** Rydym yn croesawu model gweithio hybrid, sy'n eich galluogi i weithio o bell ac o'n Swyddfeydd Dinesig yn y Barri. Mae'r dull hyblyg hwn yn eich galluogi i reoli eich amser yn effeithiol tra'n cynnal cysylltiad cryf â'ch tîm.
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:** Fel gweithiwr, bydd gennych fynediad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan ddarparu cynllun pensiwn diogel a hael i chi.
- **Gwyliau Blynyddol:** Gallwch fwynhau hawl i wyliau blynyddol cystadleuol, gyda'r opsiwn i brynu gwyliau ychwanegol i gyd-fynd â'ch anghenion a'ch dewisiadau personol.
- **Cymorth Lles:** Rydym wedi ymrwymo i les ein gweithwyr, gan gynnig ystod o wasanaethau cymorth gan gynnwys Rhaglen Cymorth Cyflogeion, adnoddau iechyd meddwl, a mentrau lles..
- **Datblygiad Proffesiynol:** Rydym yn credu mewn buddsoddi yn ein pobl. Bydd gennych fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu i gefnogi datblygiad eich gyrfa.
- **Diwylliant Cynhwysol:** Mae ein diwylliant wedi'i adeiladu ar barch, cydweithio, ac ymrwymiad a rennir i ragoriaeth. Rydym yn dathlu amrywiaeth ac yn ymroddedig i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu.
- **Amgylchedd Tîm**: Ymunwch â thîm cefnogol a deinamig lle mae eich cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym yn meithrin awyrgylch cydweithredol sy'n annog arloesi a rhannu llwyddiant.

Fel Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol, cewch gyfle i chwarae rhan allweddol yn y daith gyffrous hon o drawsnewid ac arloesi. Byddwch yn rhan o dîm sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol a chael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

Mae Bro Morgannwg yn fan lle gallwch wneud cyfraniad ystyrlon, mwynhau gyrfa werth chweil, a bod yn rhan o gymuned sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu ei phobl. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni a bod yn rhan o'n cenhadaeth i greu dyfodol mwy disglair, mwy llewyrchus i bawb yn y Fro.

**Cynhelir y cyfweliadau ar 28/10/24**



# Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

***Croeso i Fro Morgannwg, lle mae ysbryd cymunedol, tirweddau trawiadol a threftadaeth ddiwylliannol yn dod at ei gilydd i greu amgylchedd eithriadol ar gyfer byw a gweithio. Fel un o ardaloedd mwyaf dymunol Cymru, mae'r Fro yn cynnig cyfuniad unigryw o gefn gwlad hardd, canol trefi prysur, a chymunedau bywiog, gan ei gwneud yn lle rhyfeddol i ddatblygu gyrfa foddhaus a mwynhau ansawdd bywyd uchel.***

Yn swatio ar hyd arfordir trawiadol De Cymru, mae Bro Morgannwg yn enwog am ei golygfeydd syfrdanol, gan gynnwys milltiroedd o draethau dilychwin, bryniau eang, a mannau gwyrdd helaeth. P'un a ydych chi'n cael eich denu at glogwyni dramatig Arfordir Treftadaeth Morgannwg, cefn gwlad tawel y Fro, neu gymunedau bywiog trefi fel Y Barri a Phenarth, mae rhywbeth at ddant pawb yma.

Mae Bro Morgannwg yn fwy na lle hardd yn unig—mae'n gymuned sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn a balchder. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella bywydau pob preswylydd trwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion amrywiol ein cymuned.

Mae ein llwyddiant fel un o'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru yn cael ei ategu gan ein hymroddiad i arloesi a thrawsnewid, a rhagoriaeth o ran darparu gwasanaethau. Rydym yn gweithio ar y cyd â phreswylwyr, busnesau a phartneriaid i sicrhau bod y Fro yn parhau i fod yn fan lle gall pawb fwynhau amgylchedd diogel, glân a llewyrchus.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym ar genhadaeth i esblygu a gwella ein gwasanaethau i wasanaethu ein cymuned yn well. Rydym yn croesawu dyfeisgarwch, cydweithredu ac arloesedd wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynaliadwy i bawb, ac rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les hirdymor ein preswylwyr.

Fel rhan o'n dull blaengar o weithredu, mae gennym ar hyn o bryd raglen drawsnewid ar raddfa fawr gyda'r nod o wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau. Mae'r trawsnewid hwn yn cael ei arwain gan ein gwerthoedd craidd o fod yn Agored, Ynghyd, yn Uchelgeisiol, ac yn Falch, ac mae wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion esblygol ein cymuned mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Mae gweithio yng Nghyngor Bro Morgannwg yn golygu bod yn rhan o dîm sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Rydym yn adeiladu amgylchedd gwaith sy'n meithrin ymddiriedaeth, cydweithrediad ac ymdeimlad o berthyn. Mae ein hymrwymiad i gynwysoldeb ac amrywiaeth yn golygu bod llais pawb yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu diwylliant o weithle cadarnhaol a chefnogol.




VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Ein Gwerthoedd

## Rydym yn ceisio cofleidio'r gwerthoedd craidd o fod yn agored, ynghyd, yn uchelgeisiol a balch ym mhopeth a wnawn.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, mae ein gwerthoedd o fod yn Agored, Ynghyd, Uchelgeisiol a Balch yn greiddiol i bopeth a wnawn. Fel Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol, bydd disgwyl i chi ymgorffori'r gwerthoedd hyn, gan sbarduno ein Gwasanaethau Cyfreithiol i gefnogi amcanion strategol ac agenda drawsnewid y Cyngor.

**Uchelgeisiol** *– Meddwl yn flaengar, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.*

Byddwch:

- Arwain tîm y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau arloesol i wella darpariaeth gwasanaethau.
- Gosod safonau uchel ar gyfer cyngor a chymorth cyfreithiol, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth a gwelliant parhaus.
- Sbarduno’r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol i archwilio dulliau newydd sy'n cyd-fynd â nodau trawsnewid y Cyngor ac yn eu cefnogi.

I fod yn llwyddiannus dylech fod:

- Yn rhagweithiol ac yn arloesol, yn gyson yn chwilio am ffyrdd o wella ac esblygu gwasanaethau cyfreithiol.
- Yn arweinydd gweledigaethol sydd ag awydd cryf i gyflawni rhagoriaeth a gwthio ffiniau.
- Yn agored i newid ac yn gallu ysbrydoli'ch tîm i groesawu heriau a chyfleoedd newydd

**Agored** *– Yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydyn ni’n eu gwneud.*

Byddwch:

- Hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd o fewn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol ac ar draws y Cyngor.
- Meithrin amgylchedd lle mae deialog agored a safbwyntiau amrywiol yn cael eu hannog a'u gwerthfawrogi.
- Sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn glir, yn hygyrch ac wedi'i integreiddio i brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.



# Ein Gwerthoedd

I fod yn llwyddiannus dylech fod:

- Yn gyfathrebwr cryf sy'n gwerthfawrogi bod yn agored a thryloyw ym mhob rhyngweithio.
- Yn barod i dderbyn syniadau newydd ac adborth, gyda'r gallu i ystyried ac ymgorffori safbwyntiau gwahanol.
- Yn atebol am eich penderfyniadau chi a rhai eich tîm, gan sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn cefnogi amcanion y Cyngor.

**Gyda’n gilydd** *– Yn gweithio gyda’n gilydd fel tîm sy’n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, sy’n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon.*

Byddwch::

- Datblygu ac yn cynnal cydberthnasau cydweithredol cryf o fewn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol a chydag adrannau a rhanddeiliaid eraill y Cyngor.
- Annog gwaith tîm a gwneud penderfyniadau ar y cyd i gefnogi nodau strategol y Cyngor.
- Arwain eich tîm mewn ffordd sy'n hyrwyddo cynwysoldeb ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.

I  fod yn llwyddiannus dylech fod:e:

- Yn arweinydd cydweithredol sy'n gwerthfawrogi gwaith tîm ac yn deall pwysigrwydd cydweithio i gyflawni nodau a rennir.
- Yn fedrus yn datblygu perthynas ac yn meithrin partneriaethau o fewn a thu allan i'r sefydliad.
- Wedi ymrwymo i gynwysoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i barchu o fewn eich tîm.

**Balch** *- Yn falch o wasanaethu ein cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.*

Byddwch:

- Yn cynnal y safonau uchaf o foeseg broffesiynol ac uniondeb cyfreithiol yn eich holl waith.
- Yn dangos esiampl o ymddygiad moesegol, gan sicrhau bod pob gweithred gyfreithiol yn cyd-fynd â gofynion statudol a gweledigaeth y Cyngor.
- Yn dangos balchder yn eich gwaith a gwaith eich tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at fywydau preswylwyr ac effeithiolrwydd y Cyngor



# Ein Gwerthoedd

I fod yn llwyddiannus, byddwch:

- Yn arweinydd moesegol gydag ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus ac uniondeb cyfreithiol.
- Yn falch o'ch rôl a'r effaith y mae'n ei chael ar y gymuned, gan osod esiampl i'ch tîm a'r sefydliad ehangach.
- Yn ymroddedig i gynnal safonau uchel ac enw da cadarnhaol i'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol




# Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Rydym yn dîm deinamig o gyfreithwyr sy'n canolbwyntio ar atebion, yn hyddysg yn cydweithio ar draws llywodraeth leol a rhwydweithiau'r sector preifat. Mae ein perthnasoedd cryf, sefydledig yn ein grymuso i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel i dimau mewnol, partneriaid llywodraeth leol, a'r trydydd sector. Mae'r ymrwymiad hwn yn ein sbarduno i gofleidio heriau newydd a phrosiectau cyffrous, pob un yn cyd-fynd â chefnogi ein Cyfarwyddiaethau a hyrwyddo agenda drawsnewid uchelgeisiol y Cyngor.

Mae ein profiad eang ar draws cyfarwyddiadau amrywiol, yn enwedig o fewn y gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol, yn tynnu sylw at y gwerth yr ydym yn ei roi i'r sefydliad. Mae ein gwaith nid yn unig yn atgyfnerthu ein pwrpas ond hefyd yn dod ag ymdeimlad dwfn o gyflawniad wrth i ni weld effaith bendant ein hymdrechion ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Fel tîm blaengar rydym yn awyddus i fabwysiadu dulliau arloesol ac atebion digidol i wneud y gorau o adnoddau, gwella darpariaeth gwasanaethau, ac ehangu ein cyrhaeddiad. Trwy reoli llwyth gwaith cynyddol—yn enwedig o fewn prosiectau cymhleth, hirdymor—rydym yn sicrhau ein bod yn bodloni’r galwadau cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn blaenoriaethu rhannu arfer gorau a gwneud y gorau o'n rhwydweithiau cydweithredol i roi cefnogaeth gadarn i Aelodau a Swyddogion, gan gynorthwyo’r broses o wneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau cynrychiolaeth effeithiol mewn achosion cyfreithiol.
Rydym yn ddeiliaid balch o achrediad Lexcel Cymdeithas y Gyfraith, gan gydnabod ein rhagoriaeth yn rheoli ymarfer cyfreithiol a gofal cleientiaid. Mae ein fframwaith rheoli trylwyr yn sicrhau effeithlonrwydd gweithredol, gwasanaeth cleientiaid eithriadol, a rheoli risg effeithiol, sydd yn ei dro yn helpu i leihau costau a chynyddu proffidioldeb. Gydag archwiliadau blynyddol gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, rydym yn cynnal y safonau uchaf o wasanaethau cyfreithiol.

Mae'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn chwarae rhan ganolog yn llunio dyfodol ein gwasanaethau cyfreithiol, gan sicrhau ein bod yn rhagweithiol yn diogelu buddiannau cyfreithiol y Cyngor wrth sbarduno datblygiad polisi corfforaethol. Mae Rheolwyr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn darparu cefnogaeth hanfodol i'r Prif Swyddog a rolau statudol.

Mae ffocws allweddol y rôl statudol yn cynnwys, ymhlith cyfrifoldebau eraill:

- Darparu arweiniad a hyfforddiant i Aelodau etholedig ar God Ymddygiad Aelodau a Chyfansoddiad y Cyngor, gan ymestyn y gefnogaeth hon i'r 26 Cyngor Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg.
- Cefnogi'r Pwyllgor Safonau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cyngor cyfreithiol o ansawdd uchel, diogelu sefyllfa gyfreithiol y Cyngor, a meithrin cydberthnasau cydweithredol ar draws yr awdurdod. Wrth i ddeddfwriaeth newydd ddod i'r amlwg, rydym yn gyffrous am y cyfleoedd i wella ein gwasanaethau a chyfrannu at amcanion strategol y Cyngor.



# Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

## Ein Timau:

**Tîm Eiddo, Contract, Cynllunio a Phriffyrdd:**

Mae'r tîm hwn yn rheoli cymhlethdodau cyfreithiol datblygiadau ar raddfa fawr a chontractau gwerth uchel. Maent yn ymdrin â throsglwyddo, materion rhwng landlordiaid a thenantiaid, a thrafodaethau contract, gan chwarae rhan hanfodol ym mhrosiectau trawsnewid y Cyngor. Mae eu harbenigedd yn rhychwantu cyfraith llywodraeth leol, prynu gorfodol, tai ac adolygiadau barnwrol, gan eu gwneud yn gyfranwyr allweddol mewn mentrau fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Wrth i ddeddfwriaeth esblygu, maent yn parhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i gyflawni nodau'r Cyngor.

**Tîm Gwasanaethau Cymunedol:**

Mae ein tîm Gwasanaethau Cymunedol yn cynnig cymorth cyfreithiol cynhwysfawr ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Maent yn cynrychioli gwasanaethau oedolion yn y Llys Gwarchod ac yn cynghori ar faterion cymhleth fel iechyd meddwl, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, a dirprwyaethau. Mewn gwasanaethau plant, maent yn darparu cymorth hanfodol mewn achosion diogelu ac amddiffyn plant, yn aml yn ymgymryd ag eiriolaeth yr Uchel Lys. Mae'r tîm hwn hefyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill, gan gynhyrchu incwm drwy waith allanol pan fydd adnoddau'n caniatáu.

**Tîm Cymorth Ymgyfreitha a Busnes:**

Mae'r tîm hwn yn ymdrin ag ymgyfreitha cymhleth ar gyfer y Cyngor, sy'n rhychwantu awdurdodaethau sifil a throseddol. Maent yn erlyn achosion rheoleiddio, yn amddiffyn heriau cyfreithiol, ac yn rhoi cyngor ar gyfraith cyflogaeth. Gan weithio'n agos gydag AD, maent yn cynrychioli'r Cyngor mewn anghydfodau cyflogaeth ac yn mynd i'r afael â materion tai, gan gynnwys digartrefedd a diffyg atgyweirio eiddo. Mae'r tîm hefyd yn croesawu atebion digidol fel e-filio ac awtomeiddio dogfennau i sbarduno effeithlonrwydd a gwella darpariaeth gwasanaethau.

Wrth i ni symud ymlaen, mae'r timau hyn mewn sefyllfa dda i gefnogi prosiectau trawsnewid uchelgeisiol y Cyngor, gan gyfrannu at ddarparu gwasanaethau arloesol wrth atgyfnerthu ein hymrwymiad i ragoriaeth gyfreithiol.

Rydym yn llawn cyffro am y dyfodol a'r rôl allweddol y bydd Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol yn ei chwarae wrth lunio ein cynnydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r daith hon, byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais a'ch croesawu i'n tîm.

*Victoria Davidson*
*Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd*
*vdavidson@valeofglamorgan.gov.uk*
*07891 449715*

# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Cyfeirnod y Swydd | X-LG-LG101 |
| Gradd | Rheolwr Gweithredol |
| Cyfarwyddiaeth | Adnoddau Corfforaethol |
| Lleoliad | Swyddfeydd Dinesig, Y Barri a Gweithio o Bell |
| Yn atebol i | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Yn gyfrifol am: | Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol |

### Trosolwg o'r Rôl:

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant sy'n ymgorffori ein hegwyddorion sylfaenol sef Bod yn Agored, Agosatrwydd, Balchder ac Uchelgais. Ein cenhadaeth yw esblygu a gwella'r ffordd rydym yn gwasanaethu ein cymuned amrywiol, gan sicrhau amgylchedd teg a llewyrchus i'n holl breswylwyr.
Cenhadaeth y Gwasanaeth yw darparu cymorth cyfreithiol haen uchaf sy'n sicrhau bod gweithrediadau'r Cyngor yn gadarn yn gyfreithiol, yn dryloyw ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol. Rydym yn chwilio am arweinydd profiadol a gweledigaethol i ymgymryd â rôl Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol.

Wrth i'r Cyngor ddechrau ar raglen drawsnewid ar raddfa fawr, bydd gan yr ymgeisydd delfrydol nid yn unig gefndir cryf mewn rheolaeth gyfreithiol ond bydd hefyd yn gatalydd ar gyfer arloesi, gan ysbrydoli tîm sy'n perfformio'n dda i gefnogi a galluogi trawsnewid ar draws y sefydliad.

| Ein Gwerthoedd: | Ymddygiad | Sut mae'n berthnasol i'r rôl hon: |
|---|---|---|
| Uchelgeisiol | Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol. | • Dangos dulliau rhagweithiol ac arloesol o wella darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol.<br>• Gosod safonau uchel ar gyfer cyngor a chymorth cyfreithiol, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth a gwelliant parhaus.<br>• Arwain y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol i archwilio ffyrdd newydd o gefnogi rhaglen drawsnewid y Cyngor. |



# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

| | Ymddygiad | Sut mae'n berthnasol i'r rôl hon: |
| --- | --- | --- |
| **Agored** | Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud. | • Hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd o fewn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyngor ehangach.<br>• Annog deialog agored, gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol, a meithrin amgylchedd lle mae syniadau arloesol yn cael eu cyfnewid yn rhydd.<br>• Sicrhau bod cyngor cyfreithiol clir a hygyrch yn cael ei roi i'r holl randdeiliaid i gefnogi trawsnewid. |
| **Ynghyd** | Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon. | • Datblygu perthnasoedd cryf a chydweithredol o fewn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol ac ar draws y Cyngor.<br>• Gweithio'n agos gydag adrannau eraill, aelodau etholedig, a rhanddeiliaid allanol i gyflawni amcanion trawsnewid strategol y Cyngor.<br>• Hyrwyddo gwaith tîm a phrosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd sy'n cyd-fynd â nodau trawsnewid y Cyngor. |
| **Balch** | Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg. | • Cynnal y safonau uchaf o foeseg broffesiynol ac uniondeb cyfreithiol.<br>• Yn dangos esiampl o ymddygiad moesegol, gan sicrhau bod pob cyngor a gweithred gyfreithiol yn cyd-fynd â gofynion statudol a gweledigaeth drawsffurfiol y Cyngor.<br>• Cynnal ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus ac egwyddorion y gyfraith tra'n cefnogi newid arloesol. |

# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

**Disgrifiad Swydd:**

Fel Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol, byddwch yn:

**Arweinyddiaeth:**

- Darparu cyfeiriad strategol i'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol, gan feithrin diwylliant o arloesi, rhagoriaeth a gwelliant parhaus, sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol ac amcanion strategol y Cyngor.
- Goruchwylio datblygu a gweithredu polisïau cyfreithiol, gan sicrhau cydymffurfio a chyd-fynd ag agenda drawsnewid a strategol y Cyngor.
- Rheoli llwyth gwaith y tîm, gan sicrhau bod gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n amserol ac yn effeithiol, sy'n hanfodol i fentrau strategol y Cyngor.
- Annog datblygiad proffesiynol, gan gynnal safonau uchel o wybodaeth ac ymarfer cyfreithiol.
- Esiampl o arweinyddiaeth enghreifftiol sy'n hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor ac yn sefydlu'r cymwyseddau hyn ar draws y sefydliad.
- Croesawu meddwl arloesol, herio'r sefyllfa bresennol, a meithrin diwylliant o greadigrwydd a datrys problemau o fewn y tîm.

**Cyngor a Chymorth Cyfreithiol:**

- Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol cadarn, gan liniaru risgiau tra'n galluogi atebion arloesol.
- Rhoi cyngor cyfreithiol arbenigol i aelodau etholedig, yr uwch dîm rheoli, ac adrannau ar ystod eang o faterion, gan integreiddio ystyriaethau cyfreithiol ym mhob agwedd ar weithrediadau a strategaethau'r Cyngor.
- Arwain ar faterion cyfreithiol cymhleth, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi mentrau trawsnewid, gan ddarparu arweiniad ar achosion proffil uchel a chynrychioli'r Cyngor yn ôl yr angen.
- Goruchwylio holl ymgyfreitha'r Cyngor, gan gydlynu cynrychiolaeth gyfreithiol allanol i ddiogelu buddiannau'r Cyngor.
- Arwain prosesau datrys anghydfodau, gan flaenoriaethu atebion effeithlon a chost-effeithiol sy'n cyd-fynd ag amcanion y Cyngor.
- Cynnig hyfforddiant a diweddariadau cyfreithiol parhaus, gan sicrhau bod yr holl staff yn deall materion cyfreithiol a'u perthnasedd i nodau'r Cyngor.



# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Rhagoriaeth Weithredol:**

- Cefnogi fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys paratoi ac adolygu dogfennau, polisïau a gweithdrefnau cyfansoddiadol, gyda ffocws ar alluogi trawsnewid.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau diogelu data, ceisiadau rhyddid gwybodaeth, a gofynion rheoliadol eraill, wrth hyrwyddo dulliau blaengar o lywodraethu a chydymffurfio.
- Rheoli'r gyllideb ar gyfer y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol, gan sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a chadw at reoliadau ariannol, gan ganolbwyntio ar gefnogi nodau trawsnewid y Cyngor.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion cost, effeithlonrwydd a chreu incwm o fewn y gwasanaethau cyfreithiol, yn arbennig i gefnogi trawsnewid.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:**

- Datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys aelodau'r cyngor, asiantaethau'r llywodraeth, a darparwyr cyfreithiol allanol, i gefnogi gweithrediadau a mentrau strategol y Cyngor.
- Gweithredu fel cynghorydd cyfreithiol allweddol yn rhaglen drawsnewid y Cyngor, gan sicrhau bod fframweithiau cyfreithiol yn cefnogi ac yn hwyluso newid sefydliadol.
- Cynrychioli'r Cyngor mewn fforymau amrywiol, gan eirioli dros arferion cyfreithiol sy'n cefnogi arloesedd, trawsnewid, a nodau strategol ehangach y Cyngor.

**Dyletswyddau Cyffredinol:**

- Ystyried cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Hwyluso’r broses o gyflwyno polisïau, gweithdrefnau ac arfer i gefnogi’r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor a chymryd rhan yn y broses honno.
- Sicrhau y caiff egwyddorion cyfle cyfartal eu hintegreiddio a’u dilyn yn weithredol yn y Gyfarwyddiaeth ac ym mhob rhan o’r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaol â pholisïau’r Cyngor, gweithdrefnau a deddfwriaeth gan gynnwys y rhai hynny sy’n ymwneud â rheoli cyflogeion, iechyd a diogelwch, cysylltiadau cwsmeriaid, diogelu, gwybodaeth, cydraddoldeb, yr amgylchedd a’r rhai sydd wedi’u nodi yn y Rheolau Ariannol a Rheolau’r Weithdrefn Gontractau.

Yn ychwanegol i’r dyletswyddau uchod, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o newid mewn amgylchiadau, ond nad ydynt o reidrwydd yn newid natur neu lefel cyfrifoldeb y swydd.

# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

| | Hanfodol | Dymunol | Profir trwy |
|---|---|---|---|
| 1. Profiad | • Profiad sylweddol mewn rôl gyfreithiol uwch, yn ddelfrydol o fewn llywodraeth leol neu'r sector cyhoeddus, gyda hanes o gefnogi trawsnewid sefydliadol.<br>• Gallu amlwg i arwain tîm cyfreithiol trwy gyfnodau o newid, gan ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â nodau strategol.<br>• Profiad o ddarparu cyngor cyfreithiol ar ystod eang o faterion, gyda phwyslais ar feysydd sy'n cefnogi trawsnewid, gan gynnwys cynllunio, eiddo, cyflogaeth a chontractau.<br>• Profiad amlwg o reoli ymgyfreitha a datrys anghydfod | • Profiad o reoli cyllideb a dyrannu adnoddau.<br>• Profiad o ddarparu hyfforddiant a datblygiad i weithwyr proffesiynol cyfreithiol a staff eraill.<br>• Profiad o drin achosion cyfreithiol proffil uchel neu gymhleth. | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |
| 2. Gwybodaeth | • Gwybodaeth fanwl am gyfraith llywodraeth leol, llywodraethu, a fframweithiau rheoleiddio.<br>• Dealltwriaeth gynhwysfawr o ddeddfau diogelu data, ceisiadau rhyddid gwybodaeth, a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>• Ymwybyddiaeth o faterion a heriau presennol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. | • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Gymreig a materion cyfreithiol penodol sy'n effeithio ar awdurdodau lleol yng Nghymru.<br>• Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo. | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |
| 3. Sgiliau a rhinweddau | • Y gallu i ddangos esiampl o ran ymddygiad arwain a hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor.<br>• Y gallu i feddwl yn strategol a datblygu a gweithredu strategaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor.<br>• Sgiliau arwain rhagorol a'r gallu i roi eglurder i'ch tîm ar weledigaeth a phwrpas ei waith.<br>• Hanes cryf o adeiladu a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, a'r gallu i eirioli dros ragoriaeth, tegwch, a chynwysoldeb.<br>• Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, y gallu i ddylanwadu ar eraill gydag effaith a hygrededd proffesiynol a'r gallu i gyfathrebu â chymuned amrywiol. | | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |



# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

| | Hanfodol | Dymunol | Profir trwy |
|---|---|---|---|
| 3. Sgiliau a rhinweddau | • Ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol ac yn ymwybodol o dueddiadau addysg a rheoliadau perthnasol sy'n dod i'r amlwg.<br>• Y gallu i reoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys cyllidebau, staffio a chyfleusterau. | | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |
| 4. Cymwysterau a hyfforddiant | • Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr cymwys gyda thystysgrif ymarfer gyfredol yng Nghymru a Lloegr. | • Cymwysterau ôl-raddedig mewn maes perthnasol (e.e. LLM mewn Cyfraith Llywodraeth Leol).<br>• Aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol (e.e. Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar). | • CV |
| 5. Agwedd a chymhelliant | • Uwch arweinydd brwdfrydig iawn, sy'n gallu dangos esiampl i aelodau o'r tîm ac i gyfoedion.<br>• ·Gallu addasu a bod yn hyblyg i ateb amryw heriau.<br>• Arweinydd ysbrydoledig sy'n gallu ennyn diddordeb aelodau o'r tîm i berfformio'n eithriadol mewn amgylchedd heriol.<br>• Hyrwyddwr newid arloesol, sy'n hapus i herio'r sefyllfa bresennol i gyflawni amcanion strategol a datrys problemau.<br>• Brwdfrydig wrth ddangos esiampl mewn perthynas â gwerthoedd y Cyngor. | | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |

# Proffil Rôl Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cyfreithiol

## Prif Swyddog

**6. Arall (nodwch fanylion)**

| Hanfodol | Dymunol | Profir trwy |
| --- | --- | --- |
| • Hygrededd personol a phroffesiynol.<br>• Cymhelliant, egni a brwdfrydedd i gynnal agenda eang.<br>• Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen.<br>• Gallu gyrru / teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel y bo'n briodol. | • Y gallu i ddysgu neu siarad Cymraeg. | • CV a Llythyr Eglurhaol<br>• Diwrnod Asesu |

The Vale of Glamorgan Council
Civic Offices Holton Road Barry
CF63 4RU